

Caplaniaeth Catholig

Yr Offeren a gwasanaethau eraill ar-lein yn ystod cyfyngiadau symud Coronafeirws.

Mae [ChurchServices.TV](#) yn wasanaeth sy'n darlledu'r Offeren yn fyw ac wedi'i recordio a gwasanaethau eraill o nifer o wahanol Eglwysi Catholig ar hyd a lled y DU, Iwerddon a'r Unol Daleithiau.

O'r rhain, byddwn yn bersonol yn argymhell y gwasanaethau a gynigir gan y [Chwirydd Dominicaidd Sant Joseff](#) yn Lymington, Lloegr.

Caiff yr Offeren hefyd ei darlledu (Dydd Mawrth - Dydd Sul) yn ein hesgobaeth gan ein Heskob lleol, [yr Esgob Peter Brignall](#), o'i Gapel Siantri yn Nhŷ'r Esgob ar dudalen Facebook yr Esgobaeth.

Mae ar gael bob dydd ar YouTube o'r [Brodyr Dominicanaid](#).

Adnoddau Ysbrydol, Gweddïo a Myfyrdod

[Godzdogz - Blog myfyrwyr brodyr Urdd y Pregethwyr \(Dominiciaid\)](#). Mae Godzdogz, sydd wedi'i adeiladu ar bedair colofn bywyd Dominicanaid sef pregethu, gweddïo, astudio, a chymuned, yn cynnig llawer o adnoddau ar gyfer archwilio'r ffydd Gatholig heddiw.

Mae Abaty Ampleforth, Mynachlog Benedictaidd yn Swydd Efrog, wedi dechrau cyfres o '[Encilion Gartref](#)' undydd rhithiol ar gyfer y rhai sydd dan gyfyngiadau symud. Mae pob encil yn cynnwys adfyfyrdod 10-15 munud a chyfres o awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ac adfyfyrio pellach trwy gydol y dydd. Mae'r Mynachod yn gobeithio y gwnewch chi ymuno â nhw am 8:15 pm i weddïo'r Cwmplyn gyda'ch gilydd.

Mae'r '[Jeswitiaid' ym Mhrydain](#) - yn cynnig 'Siop Un Stop Corona' sy'n cynnig cysylltiadau i wasanaethau, cyngor ar weddïo ac encilion gartref. Mae'r cysylltiadau'n cynnwys cyswllt i'r [safle gweddï/myfyrdod 'gweddïo wrth fynd' ar gyfer ymwybyddiaeth lechyd Meddwl](#). Mae'n cynnig ymarferion sain a fwriedir fel dull o weddïo ar gyfer yr heriau y gallech fod yn eu hwynebu o ran iechyd meddwl. Mae saith ymarfer sain yn seiliedig ar wahanol themâu a fwriedir, ym mhresenoldeb Duw, i annog ymwybyddiaeth weddigar am unrhyw deimladau o anesmwythyd neu drallod. Mae'r ymarferion byr hyn yn para hyd at 8 munud.

I'r rhai sydd â diddordeb mewn myfyrdod o safbwynt Cristnogol byddwn yn argymhell [Cymuned y Byd ar gyfer Myfyrdod Cristnogol \(WCCM\)](#) sydd â gwybodaeth ar sut i fyfyr.